

# HERITAGE NEWS

## NEWYDDION TREFTADAETH

BLAENAVON WORLD HERITAGE SITE NEWSLETTER ISSUE 25 WINTER 2017  
CYLCHLYTHYR SAFLE TREFTADAETH Y BYD BLAENAFON RHIFYN 25 GAEIF 2017

## Young volunteers recognised with prestigious Diana Award

### Gwirfoddolwyr ifanc yn derbyn gwobr glodfawr Diana

Eight Blaenavon World Heritage Youth Ambassadors have been recognised with a prestigious Diana Award for their inspirational volunteer work to help Blaenavon World Heritage Site and the wider World Heritage sector in recognising the importance of youth engagement in helping to change young people's lives for the better.

The vision of the World Heritage Youth Ambassador Programme is to empower young people to learn about and have an active and powerful voice in their own lives, their local communities and their local World Heritage Sites.

The Youth Ambassadors have volunteered within Blaenavon, undertaken qualifications, and travelled across the UK to speak on how young people can make a valuable contribution. As a result of their work, young people are now volunteering to support their World Heritage Sites, speaking up to influence decisions and bettering their own lives.

Award winner Kieran, age 17, said "My time in as a Youth Ambassador has been absolutely amazing. I have made new friends, developed new skills and I'm feeling more confident."

Councillor Alan Jones, Executive Member for Business, Tourism, Leisure & Culture said: "The World Heritage Youth Ambassadors has been an incredibly successful project. Many of the young people engaged have come from complex and difficult backgrounds. To see them now, making a difference to their community and speaking at international conferences is a real inspiration and they thoroughly deserve this award."

Mae wyth o Llysgenhadon Ifanc Treftadaeth y Byd wedi derbyn Gwobr Glodfawr Diana am eu gwaith gwirfoddol ysbrydoledig i helpu Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a'r sector Treftadaeth Byd ehangach gydnabod pwysigrwydd ymgysylltiad ieuencid i helpu newid bywydau pobl ifanc er gwell.

Gweledigaeth Rhaglen Llysgenhadon Ifanc Treftadaeth y Byd yw rhoi grym i bobl ifanc ddysgu am gael llais gweithredol a phwerau yn eu bywydau eu hunain, eu cymunedau lleol a'u Safleoedd Treftadaeth Byd lleol.

Mae'r Llysgenhadon ieuencid a wnaeth wirfoddoli ym Mlaenafon, wedi ennill cymwysterau, ac wedi teithio ledled y DU i drafod sut y gall pobl ifanc wneud cyfraniad gwerthfawr. O ganlyniad i'w gwaith, mae pobl ifanc bellach yn gwirfoddoli i gefnogi eu Safleoedd Treftadaeth y Byd, siarad, i ddylanwadu ar benderfyniadau a gwella eu bywydau eu hunain.

Meddai Kieran, 17 oed, un o'r bobl ifanc a enillodd y wobwr "Mae fy nghyfnod fel Llysgennad Ifanc wedi bob yn syfrdanol. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd, datblygu sgiliau newydd ac rwy'n teimlo'n fwy hyderus."

Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones, Aelod Gweithredol dros Fuses, Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant: "Mae Llysgenhadon Ifanc Treftadaeth y Byd wedi bod yn brosiect hynod lwyddiannus. Mae llawer o'r bobl ifanc yr ymgysylltwyd â hwyf wedi dod o gefndiroedd cymhleth ac anodd. Mae eu gweld yn awr, yn gwneud gwahaniaeth i'w cymuned ac yn siarad mewn cynadleddau rhyngwladol yn ysbrydoliaeth go iawn ac maent yn llwyr haeddu'r wobwr hon."



Blaenavon  
Heritage VC  
Primary School  
Community  
Engagement Day

Diwrnod  
Ymgysylltu  
Cymunedol  
Ysgol Gynradd  
Wirfoddol  
Treftadaeth  
Blaenafon  
Page/Tudalen 2

'What's On' at The  
Workmen's Hall?

'Beth Sy' 'mlaen  
yn Neuadd y  
Gweithwyr?  
Page/Tudalen 6

Coming Events

Digwyddiadau  
sydd i ddod  
Page/Tudalen 12



visitblaenavon.co.uk

www.fb.com/visitblaenavon

## Blaenavon Heritage VC Primary School Community Engagement Day

Evie Chislett of Year 6, Bloreng 1 updates us on the Schools recent Community Engagement Day...

On Monday 23 October Blaenavon Heritage VC Primary School hosted the Blaenavon and Forgeside Community Engagement Day. It was a day where people from all around Blaenavon were invited to come into the sports hall of the school, to listen and talk to others about how to keep safe.

Lots of different community services attended! The fire men came to talk to all the children about fire safety and how to keep safe if there was a fire. Also, the police service did various activities with the children from BHVC, including, litter picking and teaching pupils from years 5 and 6 how to catch speeding cars. The sports hall was a hive of activity with different stalls helping and advising people about keeping safe.

A poster competition was held to promote the community day and they were displayed, making the place really colourful. The winners were rewarded with various prizes.

All of the pupils from BHVC had a fun day. Janean Cummings in Year 6 commented "It was a cool event and I really enjoyed it"

Everybody in Blaenavon should have been there to enjoy it!

Well done to competition winners, Hollie, Charlotte, Grace, Britney, Cariad and Harrison.



## Diwrnod Ymgysylltu Cymunedol Ysgol Gynradd Wirfoddol Treftadaeth Blaenafon

Mae Evie Chislett, blwyddyn 6, Bloreng 1 yn dweud wrthym am Ddiwrnod Ymgysylltu Cymunedol yr ysgol yn ddiweddar...

Ar ddydd Llun 23ain Hydref cynhaliwyd Diwrnod Ymgysylltiad Cymunedol Blaenafon a Ger-yr-Efail yn Ysgol Gynradd Wirfoddol Treftadaeth Blaenafon. Roedd yn ddiwrnod pan gafodd pobl o Flaenafon a'r cylch wahoddiad i ddod i neuadd chwaraeon yr ysgol, i wrando a siarad â phobl eraill am sut i gadw'n ddiogel.

Daeth llawer o wasanaethau cymunedol gwahanol! Daeth y gwarchodwyr tân i siarad gyda'r plant i gyd am ddiogelwch tân a sut i gadw'n ddiogel pe bai yna dân. Hefyd daeth yr heddlu i wneud gweithgareddau amrywiol gyda phlant yr ysgol gan gynnwys codi sbwriel a dysgu i blant blynyddoedd 5 a 6 sut i ddal ceir sy'n gyrru'n rhy gyflym. Roedd y neuadd chwaraeon yn llawn bwrlwm gyda gwahanol stondinau yn helpu ac yn cynghori pobl ar sut i gadw'n ddiogel.

Cafwyd cystadleuaeth gwneud poster i hybu'r diwrnod ac roedd y rhain yn gwneud y lle'n lliwgar iawn. Rhoddwyd gwobrau i'r enillwyr.

Cafodd holl ddisgyblion yr ysgol ddiwrnod yn llawn hwyl. Dywedodd Janean Cummings o flwyddyn 6 "Roedd yn ddigwyddiad gwych a mwynheais yn fawr."

Dylai pawb ym Mlaenafon fod wedi bod yno i fwynhau!

Da iawn i enillwyr y gystadleuaeth, Hollie, Charlotte, Grace, Britney, Cariad a Harrison.

## Britain's largest mechanical puppet to begin 2018 tour in Blaenavon

The largest mechanical puppet ever constructed in Britain will start its tour of Wales with an opening ceremony in Blaenavon on Sunday 8 April 2018.

The colossal Man Engine will begin his journey at Big Pit before parading down to Blaenavon Ironworks accompanied by choirs, brass bands and theatrics as part of his journey across Wales, entitled: Man Engine Cymru: forging a nation.

From Blaenavon it will visit Ebbw Vale Steelworks, Cyfarthfa Park and Castle, Ynysangharad War Memorial Park, the National Waterfront Museum Swansea, Swansea City Centre and the Hafod-Morfa Copperworks

The Welsh tour is a collaboration of the cultural sector in Wales, with Swansea University working in partnership with the Welsh Government's historic environment

service (Cadw), Amgueddfa Cymru-National Museum Wales, five local authorities (Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taf and Swansea), Head 4 Arts and Golden Tree Productions.

The team behind the Man Engine, Golden Tree Productions, are creating a bespoke visual and aural experience for the Welsh expedition set to include theatrical shows, live music and storytelling to highlight the rich industrial heritage of south Wales.

Residents will be able to view the event outside the Big Pit Museum and parade through the Gilchrist estate, and tickets to view the stop at the Ironworks can be booked via [www.themanengine.co.uk](http://www.themanengine.co.uk) in January.

## Pyped mecanyddol mwyaf Prydain i ddechrau taith 2018 ym Mlaenafon

Bydd y pyped mecanyddol mwyaf erioed i gael ei adeiladu ym Mhrydain erioed yn dechrau ei daith trwy Gymru gyda seremoni agoriadol ym Mlaenafon ar ddydd Sul 8 Ebrill 2018.

Bydd y Man Engine anferth yn dechrau'r daith yn y Pwll Mawr cyn gorymdeithio i Weithfeydd Haearn Blaenafon yng nghwmni corau, bandiau pres a theatr fel rhan o'i daith ar draws Cymru o'r enw: Man Engine Cymru: forging a nation.

O Flaenafon bydd yn ymweld â Gweithfeydd Dur Glyn Ebwy, Parc a Chastell Cyfarthfa Park, Parc Coffa Ynysangharad, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, Canol Dinas Abertawe a Gwaith Copr Hafod-Morfa

Mae'r daith trwy Gymru'n dilyn cydweithio gan y sector diwylliannol yng Nghymru, gyda Phrifysgol Abertawe'n cydweithio gyda gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Cymru (Cadw),

Amgueddfa Cymru, five local authorities (Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe), Celf ar y Blaen a Golden Tree Productions.

Mae'r tîm y tu ôl i'r Man Engine, Golden Tree Productions, yn creu profiad gweledol a chlywedol arbennig ar gyfer y daith trwy Gymru a fydd yn cynnwys sioeau theatrig, cerddoriaeth fyw a storïau i dynnu sylw at dreftadaeth ddiwydiannol cyfoethog de Cymru.

Bydd trigolion yn gallu gweld y digwyddiad y tu allan i Amgueddfa'r Pwll Mawr a'r orymdaith trwy ystâd Gilchrist, a gellir prynu tocynnau i weld yr arhosfan u tu allan i'r Gweithfeydd Haearn trwy [www.themanengine.co.uk](http://www.themanengine.co.uk) yn Ionawr.



## Events and news at Big Pit National Coal Museum

### Sun 10 December Big Pit Babies Christmas Event

A chance for younger visitors to meet Mother Christmas and find out what's been happening in the Christmas household. Has Rudolph been a good reindeer this year? Has Father Christmas finished painting the sleigh? Come along and find out more.

Sessions are at 11.30am-12.30pm and 1.30pm-2.30pm and MUST be booked in advanced. Limited spaces, so pre-booking is essential on: (029) 2057 3650. £5 charge to include a gift. Suitable for 0-5 ages. Supported by players of the People's Postcode Lottery

### Sun 17 December 10.30am-1pm & 1.30pm-4pm, Father Christmas at the Pit with Blaenavon Town Band

Be amazed as Father Christmas arrives at Pit Top at 10.30am, travelling 300ft UP from underground on his way to Lapland. Once he's arrived (and found his elves!), there'll be an opportunity to visit him in his cottage, until 4pm, and tell him what's on your Christmas list. Music will also be provided by Blaenavon Town Band.

£5 charge to include a gift. Suitable for all children. No booking necessary. Supported by players of the People's Postcode Lottery

### Throughout December and January

Blow away the Christmas cobwebs to experience some very different tours at Big Pit throughout January. Whilst the world famous underground tour is closed for essential maintenance during the week in January, underground tours WILL be available on the weekends plus the Miner Guides at Big Pit will be on hand to offer a variety of guided surface tours. Len our Blacksmith will be in residence every Monday, Wednesday, Friday during December and January.



## Newyddion a digwyddiadau yn Big Pit

### Dydd Sul 10 Rhagfyr Digwyddiad Babis Big Pit

Cyfle i ymwelwyr iau gwrdd â Siân Corn a chlywed am waith caled y teulu yn paratoi ar gyfer y 'diwrnod mawr'. Ydy Rwdolff wedi bihafio eleni? Ydy Siôn Corn wedi gorffen paentio'r sled? Galwch draw!

Sesiynau: 11.30am-12.30pm a 1.30pm-2.30pm a RHAID BWCIO YMLAEN LLAW.

Nifer cyfyngedig o lefydd, ffoniwch (029) 2057 3650 i gadw lle. Codir tal o £5 i gynnwys anrheg. Addas i blant 0-5 oed. Diolch i gefnogaeth hael chwaraewyr People's Postcode Lottery

### Sul 17 Rhagfyr, 10.30am-1pm a 1.30pm-4pm, Siôn Corn yn Big Pit gyda Band Tref Blaenafon


Rhyfeddwch wrth i Siôn Corn gyrraedd pen y pwll am 10.30am, gan godi 300tr o grombil y ddaear ar ei ffordd i Begwn y Gogledd.

Ar ôl cyrraedd (a chanfod ei goblynnod bach!), bydd cyfle i'w gyfarfod a dweud wrtho beth sydd ar eich rhestr Nadolig, tan 4pm. Bydd Band Tref Blaenafon hefyd yn chwarae carolau.

Codir tal o £5, yn cynnwys anrheg. Addas i bob plentyn. Nid oes angen cadw lle. Diolch i gefnogaeth hael chwaraewyr People's Postcode Lottery.

### Drwy gydol mis Rhagfyr a mis Ionawr

Bydd teithiau gwahanol yn digwydd yn Big Pit trwy gydol mis Ionawr. Er bod y daith danddaearol fyd-enwog ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol yn ystod yr wythnos ym mis Ionawr, mi fydd y teithiau tanddaearol ar gael yn ystod y penwythnosau a bydd ein tywyswyr wrth law hefyd i gynnig amrywiaeth o deithiau tywys arwyneb arbennig. Bydd Len ein Gof Preswyl yn yr Efail bob dydd Llun, Mercher a Gwener yn ystod Rhagfyr ac Ionawr.



## Ironmaster's Portrait Unveiled

A life-size portrait of Blaenavon ironmaster Robert William Kennard (1800-1870) has recently been loaned to the Blaenavon Community Museum and can be seen at the Workmen's Hall.

R.W. Kennard, a wealthy merchant and industrialist, dominated the Blaenavon Iron and Coal Company, which purchased Blaenavon Ironworks in 1836. He was a major shareholder and served as the company's chairman for many years.

During Kennard's involvement at Blaenavon, the ironworks was extended and modernised, with a new works being established at Forge Side. The population grew, and the town developed. Kennard and his sons were concerned about the welfare of the workers and took an active interest in education, friendly societies and self-improvement schemes.

Kennard also had industrial interests at Falkirk and Crumlin and made profitable investments in the emerging railway companies in the UK and overseas. Influential across Europe, he was made a Chevalier of the Order of Leopold of Belgium. Kennard was also Sheriff of London and Middlesex (1866-67) and Member of Parliament for Newport, Isle of Wight (1857-1868).

The portrait complements a wider collection relating to the family, loaned by David Risk Kennard, currently on display at the Blaenavon Community Museum.

For more information, email [blaenavonmuseum@outlook.com](mailto:blaenavonmuseum@outlook.com)

## Dadorchuddio Darlun Meistr Haearn



Rhoddyd benthg darlun gwir faint o'r meistr haearn o Flaenafon, Robert William Kennard (1800-1870) i Amgueddfa Gymunedol Blaenafon yn ddiweddar a gellir ei weld yn Neuadd y Gweithwyr.

Roedd R.W. Kennard, masnachwr a diwydiannwr cefnog, yn ben ar y Blaenavon Iron and Coal Company, a brynodd Gweithfeydd Haearn Blaenafon yn 1836. Roedd yn brif gyfrandaliwr ac yn gadeirydd y cwmni am nifer o flynyddoedd.

Yn ystod amser Kennard ym Mlaenafon, cafodd y gwaith ei ehangu a'i foderneiddio, a sefydlwyd gweithfeydd newydd yng Nger-yr-Efail. Tyfodd y boblogaeth, a datblygodd y dref.

Roedd Kennard a'i feibion yn pryderu am les y gweithwyr ac fe gymeron nhw ddiddordeb byw mewn addysg, cymdeithasau cyfeillgar a chynlluniau i wella cyflwr unigolion.

Roedd gan Kennard ddiddordebau diwydiannol yn Falkirk a Chrymlyn hefyd a buddsoddodd yn llwyddiannus yn y cwmnïau rheilffyrdd a oedd yn prysur ddatblygu yn y DU a thramor. Roedd yn ddylanwadol ar draws Ewrop a chafodd ei urddo'n Farchog Urdd Leopold o Wlad Belg. Roedd Kennard hefyd yn Siryf Llundain a Middlesex (1866-67) ac yn Aelod Seneddol dros Newport, Ynys Wyth (1857-1868).

Mae'r darlun yn cyd-fynd gyda chasgliad ehangach sy'n ymwneud â'r teulu, ar fenthg gan David Risk Kennard, ac ar hyn o bryd yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Gymunedol Blaenafon.


Am fwy o wybodaeth, danfonwch e-bost at [blaenavonmuseum@outlook.com](mailto:blaenavonmuseum@outlook.com)



# 'What's On' at The Workmen's Hall?

**Only a Play, a Panto and a Ballet!**

**24 November 7:30pm / The Golden Pathway Annual**



Blaenavon Workmen's Hall is proud to present a play by John Harding and John Burrows (Suitcase Theatre Company). A comic journey through time, the cast introduces us to George and

Enid Peters and their son, Michael. A family tale centred just after the end of the Second World War, touches on parenting, navigating the school years, the perils of Bob-a-Job week, and the anti-Vietnam War protest. An amusing trip through the 1950s and 60s, accompanied by classic tracks of the time.

**5 December 7:15pm / The Nutcracker – live streamed' from the Royal Opera House, London**

A young girl's enchanted present leads her on a wonderful Christmas adventure in this beautiful ballet, danced to Tchaikovsky's magnificent score. Book early to avoid disappointment.

**26 - 30 December 2pm & 6pm / Puss in Boots the Pantomime**

With a trio of professionals from London's West End Theatreland, this new magical pantomime promises the very best of seasonal entertainment for all the family. Written and produced by Peter Karrie, famous the world over for roles such as Phantom of the Opera and Valjean in Les Miserables, it will see his first outing as a Grande Dame of the Stage. His co-star, Katy Treharne, appeared


opposite Peter in Phantom as Christine Daae. Acclaimed Musical Director, John Quirk makes up the three super professionals who will bring joy and laughter to every performance this Christmas.

Commissioned by The Blaenavon Workmen's Hall, this new panto promises to bring a new vitality to the genre at a competitive ticket price, and is one surely not to be missed! Will Puss succeed in protecting the Kingdom from Wisteria the Wicked Witch? Find out by securing your tickets now.

**Visit [www.ticketsource.co.uk](http://www.ticketsource.co.uk) for tickets.**

In other news...

Adult and Junior theatre workshops will be starting at the Hall from early November providing acting classes and the opportunity to perform in two plays a year. Delivered by the extremely popular AdHoc Theatre who brought us local delights such as 'The Vicar of Dibley', 'Allo Allo' and more currently 'Don't get your Vicar's in a twist!' the group will be delivering sessions every Tuesday from 5.30pm until 8pm. See facebook Adhoc @ The Workmen's (Blaenavon) for details.



# 'Beth Sy' 'mlaen yn Neuadd y Gweithwyr?'

**Dim ond Drama, Panto a Ballet!**

**24 Tachwedd 7:30pm / The Golden Pathway Annual**

Mae Neuadd Gweithwyr Blaenafon yn falch o gyflwyno drama gan John Harding a John Burrows (Suitcase Theatre Company). Taith gomedi trwy amser lle mae'r cast yn ein cyflwyno i George ac Enid Peters a'u mab, Michael. Stori am deulu sy'n canolbwyntio ar y cyfnod yn union ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd. Mae'n cyffwrdd ar fagu plant, llywio drwy'r blynyddoedd ysgol, peryglon wythnos Swllt am Swydd, a'r protest yn erbyn Rhyfel Fietnam. Taith ddifyr drwy'r 1950au a'r 60au, ynghyd â chaneuon clasurol o'r cyfnod.

**5 Rhagfyr 7:15pm / The Nutcracker – yn fyw o Dŷ Opera Brenhinol Llundain**

Mae anrheg hudolus merch ifanc yn ei harwain ar antur Nadolig wych yn y ballet hyfryd hwn, sy'n cael ei ddawnsio i sgôr trawiadol Tchaikovsky. Archebwch yn gynnar i osgoi cael eich siomi.

**26-30 Rhagfyr 2pm a 6pm / Puss in Boots y Pantomeim**

Gyda thriawd o berfformwyr proffesiynol o fyd y theatr yn y West End, Llundain, mae'r pantomeim hudolus newydd yn addo'r gorau o adloniant tymhorol i'r teulu cyfan. Wedi ei ysgrifennu a'i gynhyrchu gan Peter Karrie, sy'n enwog dros

y byd am ei rôl yn Phantom of the Opera a Valjean yn Les Miserables, dyma fydd ei gamp gyntaf yn chwarae rhan Bonesig Fawreddog ar Lwyfan. Ymddangosodd ei gyd-seren, Katy Treharne, gyferbyn â Peter yn Phantom fel Christine Daae. Y Cyfarwyddwr Cerddorol, John Quirk, sy'n cwblhau'r triawd proffesiynol fydd yn dod â llawenydd a chwerthin i bob perfformiad y Nadolig hwn.

Mae'r panto newydd hwn, sy'n cael ei gomisiynu gan Neuadd y Gweithwyr Blaenafon yn addo i ddod â bywiogrwydd newydd i'r genre am bris cystadleuol iawn, felly un na ddylid ei fethu! A fydd Puss yn llwyddo i amddiffyn y Deyrnas rhag Wisteria y Wrach Gythreulig? Dewch i ddarganfod yr ateb drwy archebu eich tocynnau nawr.

**Ewch i [www.ticketsource.co.uk](http://www.ticketsource.co.uk) i gael tocynnau.**

Newyddion arall...

Bydd gweithdai theatr i Oedolion a Phlant lau yn cychwyn yn y Neuadd o ddechrau mis Tachwedd, gan ddarparu dosbarthiadau actio a'r cyfle i berfformio mewn dwy ddrama y flwyddyn. Dan ofal Theatr AdHoc hynod boblogaidd a ddaeth ag adloniant lleol i ni fel 'The Vicar of Dibley', 'Allo Allo' ac yn fwy diweddar 'Don't get your Vicar's in a twist!' bydd y grŵp yn cyflwyno sesiynau bob dydd Mawrth o 5.30pm tan 8pm. Gweler Adhoc @ The Workmen's (Blaenafon) ar Facebook am fanylion.



## Historic building given new lease of life

One of Blaenavon's most imposing historic buildings will be given a new lease of life thanks to investment by a local consultancy business.

The former Blaenavon Town Hall in Lion Street, which was until recently used as the town's library and museum, has been empty since the services were relocated to the World Heritage Centre in 2015.

The building has been purchased by RWA, a Blaenavon-based company that offers e-learning solutions, business support and training. The move will boost the local economy by providing employment opportunities and will provide much needed space in the town to help the company's own growth. Work is now underway to renovate the historic building, which will become the company's Head Office.

The building was erected, in its current form, in 1930 to a design by local builder John Morgan and, for many years, housed the offices and chamber of the Blaenavon Urban District Council. The building's most famous visitors were Queen Elizabeth II and the Duke of Edinburgh, who were welcomed to the offices in 1963 during a Royal Visit. The Queen, alongside May Lewis, the Chair of Blaenavon UDC, stood on the balcony and acknowledged the crowds below.

For more information about RWA, please visit [www.rwabusiness.com](http://www.rwabusiness.com)

## Bywyd Newydd i Adeilad Hanesyddol

Bydd un o adeiladau hanesyddol mwyaf trawiadol Blaenafon yn cael bywyd newydd ar ôl buddsoddiad gan fusnes o ymgynghorwyr lleol.

Mae Hen Neuadd y Dref, Blaenafon yn Heol y Llew, a oedd yn cael ei defnyddio fel llyfrgell ac amgueddfa'r dref hyd

yn ddiweddar, wedi bod yn wag ers symud y gwasanaethau i Ganolfan Treftadaeth y Byd yn 2015. Cafodd yr adeilad ei brynu gan RWA, cwmni o Flaenafon sy'n cynnig atebion e-ddysgu, cefnogaeth i fusnesau a hyfforddiant. Bydd y cam yn hwb i'r economi leol wrth greu cyfleoedd am waith a bydd yn darparu lle yng nghanol y dref i helpu twf y cwmni.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adnewyddu'r adeilad hanesyddol, a fydd yn datblygu'n Brif Swyddfa i'r cwmni.

Cafodd yr adeilad ei godi, yn ei ffurf bresennol, yn 1930 ar ffurf cynllun gan adeiladwr lleol, John Morgan ac, am nifer o flynyddoedd, roedd yn gartref i swyddfeydd a siambr Cyngor Dosbarth Blaenafon. Ymwelwyr mwyaf enwog yr adeilad oedd y Frenhines Elizabeth II a Dug Caeredin, a gafodd groeso i'r swyddfeydd yn 1963 yn ystod ymweliad brenhinol. Safodd y Frenhines, gyda May Lewis, Cadeirydd Cyngor Blaenafon, ar y balconi i gydnabod y dorf islaw.

Am fwy o wybodaeth am RWA, ewch i [www.rwabusiness.com](http://www.rwabusiness.com)





## Santa Specials at Blaenavon Heritage Railway


December means it's time to come to the railway to enjoy a visit to see Santa in his grotto. You'll travel by train to meet the great man and adults can enjoy sherry and a mince pie on the way. Every child receives an appropriate personalised gift from Santa. The fare for adults and children is £12, these trains are very popular so there is a need to book in advance via the website [Pbrly.co.uk](http://Pbrly.co.uk).

On the return journey trains will call at Whistle Inn Halt should you wish to visit the pub, in addition the Fireman's Shovel at Furness Sidings Station will be offering hot and cold light lunches. As always the emporium will be open for those special Christmas gifts.

## Trên Siôn Corn yn Rheilffordd Treftadaeth Blaenafon

Mae'n fis Rhagfyr ac mae'n amser dod i'r rheilffordd i fwynhau ymweliad â Siôn Corn yn ei grotto. Byddwch yn teithio ar y trên i gwrdd â'r dyn ei hun a gall oedolion fwynhau sieri a mins-pei ar y daith. Mae pob plentyn yn derbyn anrheg briodol gan Siôn Corn. Y pris ar gyfer oedolion a phlant yw £12, mae'r trenau'n boblogaidd ac felly mae angen bwcio o flaen llaw trwy'r wefan [Pbrly.co.uk](http://Pbrly.co.uk).

Ar y daith yn ôl bydd y trenau'n aros yn arhosfa'r Whistle Inn os hoffech chi ymweld â'r dafarn, hefyd bydd y Fireman's Shovel yng Ngorsaf Cilffordd Furness yn cynnig cinio poeth ac oer. Fel yr arfer bydd yr emporiwm ar agor ar gyfer anrhegion Nadolig arbennig.



## Bethlehem Chapel Update

When Jill Stephens, a minister in the Congregation Federation, found out that Bethlehem Chapel in Blaenavon was being closed, she had other ideas and a far reaching vision began to take shape. For the past three years, that vision has steadily become a reality, and Bethlehem Chapel is becoming a community 'hub', attracting a variety of people from within the community – to participate, to volunteer, to join in with all that is going on at the Chapel.

Starting with a 'Basic Art Course' on Monday afternoon, then to 'Pottery For All' on Tuesdays, then 'Gentle Exercise', 'Brick Club' and 'Lunch Club' – the place is buzzing and the doors are constantly open. Whether you are in need of some therapeutic, hands-on work with some clay, or just want to try your hand at something new, come along and check out what's happening. You can contact Geoff at 07904868822 to find out more information, or just drop by! The Chapel is located behind Bethlehem Court on Broad Street, very easy to find. Come in for a warming cuppa!



## Y Diweddaraf am Capel Bethlehem

Pan glywodd Jill Stephens, gweinidog o Ffederasiwn yr Annibynwyr, bod Capel Bethlehem ym Mlaenafon i gau, roedd ganddi syniadau eraill a dechreuodd gweledigaeth bellgyrhaeddol ffurfio. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r weledigaeth yn raddol wedi troi'n wirionedd, ac mae capel Bethlehem yn troi'n 'hyb' cymunedol, gan ddenu

amrywiaeth y bobl o'r gymuned - i gymryd rhan, gwirfoddoli ac i ymuno ym mhob dim sydd yn mynd ymlaen yn y Capel.

Gan ddechrau gyda 'Chwrs Celf Sylfaenol' ar brynhawn Llun, yna 'Crochenwaith i Bawb' ar ddydd Mawrth, yna 'Ymarfer Corff Ysgafn', 'Clwb

Bric' a 'Chlwb Cinio' - mae'n lle'n ferw a'r drysau ar agor bob amser. P'un ai ydych chi angen gwaith therapiwtig gyda chlai, neu am roi tro ar ryw beth newydd, dewch i weld beth sy'n digwydd. Gallwch gysylltu â Geoff ar 07904868822 am fwy o wybodaeth, neu, galwch heibio! Mae'r Capel y tu ôl i Gwrt Bethlehem ar Heol Lydan, yn ddigon hawdd dod o hyd iddo. Galwch heibio am banded!



## Santa is coming to Blaenavon Ironworks!

Come and see Santa Claus in our historic Christmas grottos at our sites this Christmas – and make unique memories with the whole family!

On 9, 10, 16, 17 December. £3 per child to enter the grotto including gift. Normal free entry to the Ironworks site on the day for all visitors.

Last entry 3:30pm.

The grotto is situated within the site.



## Siôn Corn yn dychwelyd i Waith Haearn Blaenafon!

Dewch i weld Siôn Corn yn ein grotos Nadolig hanesyddol ar ein safleoedd eleni – cyfle heb ei ail i greu atgofion unigryw gyda'r teulu cyfan!

9, 10, 16, 17 Rhagfyr. £3 y plentyn i ymweld â'r grotto, yn cynnwys anrheg. Mynediad am ddim fel arfer i safle'r Gwaith Haearn ar y diwrnod i bob ymwelydd.

Mynediad olaf 3:30pm

Mae'r grotto wedi'i leoli o fewn y safle.

## New Management Plan for Blaenavon World Heritage Site

A new draft Management Plan for the World Heritage Site has been prepared to inform the direction and management of the World Heritage Site for the next five years 2017 – 2022. The current Management Plan for the Site was approved in 2011. This Plan superseded the first Management Plan approved upon inscription of the Site in 2000. Your views on the new draft Plan are important. If you have any ideas on how Blaenavon should be protected and promoted or you would like to get more involved on a volunteer basis we would love to hear from you! The draft Plan will be subject to public consultation over the coming months. Details on how to comment will be made available ???

### Blaenavon Conservation Area Review

The centre of Blaenavon is designated as a Conservation Area which means that the Council needs to prepare a document which describes the area and promotes policies for managing it. The Council is currently preparing the latest version of this document and will be presenting it for public consultation over the summer. There will be an opportunity to comment either by the website or at a public meeting. Details on how to comment will be made available on <https://getinvolved.torfaen.gov.uk>

## Cynllun Rheoli Newydd i Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon

Mae Cynllun Rheoli drafft newydd ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd wedi cael ei baratoi er mwyn penderfynu cyfeiriad a rheolaeth Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer y pum mlynedd nesaf 2017 – 2022. Cafodd y Cynllun Rheoli presennol ar gyfer y Safle ei gymeradwyo yn 2011. Daeth y Cynllun hwn yn lle'r Cynllun Rheoli cyntaf a gytunwyd ar ôl sefydlu'r safle yn 2000. Mae eich barn ar y Cynllun drafft newydd yn bwysig. Os oes gyda chi unrhyw syniadau ar sut y dylid diogelu a hybu Blaenafon neu os hoffech wirfoddoli yna fe fyddem yn falch o glywed gennych chi! Bydd y Cynllun ddrafft ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus dros y misoedd sydd i ddod. Darperir gwybodaeth ar sut i wneud sylw ???

### Adolygiad Ardal Cadwraeth Blaenafon

Dynodir canol Blaenafon yn Ardal Cadwraeth sy'n golygu bod rhaid i'r Cyngor baratoi dogfen sy'n disgrifio'r ardal ac yn hybu polisiau ar gyfer ei reoli. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn paratoi fersiwn diweddaraf y ddogfen hon a gaiff ei chyflwyno i'r cyhoedd yn ystod yr haf. Bydd cyfle i wneud sylw nail ai trwy'r wefan neu mewn cyfarfod cyhoeddus. Darperir gwybodaeth ar sut i wneud sylw <https://getinvolved.torfaen.gov.uk>



# Coming Events / Digwyddiadau sydd i ddod

## Blessing of the Crib & Carols

7pm, 27 November  
Bethlehem Court.

## Christmas Craft Day

11am – 4pm, 2 December  
Blaenavon World Heritage Centre & Library. Christmas activities for all the family to enjoy. Festive menu available in Café. Tel (01495) 742333. [www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)

## Santa Specials

2/3/9/10/16/17 & 23 December  
Pontypool & Blaenavon Railway. Travel by train to meet the great man! Adults enjoy sherry and a mince pie on the way. Every child receives an appropriate gift. £12 for adults and children. Booking essential. [www.pbrly.co.uk](http://www.pbrly.co.uk)

## Blaenavon's Christmas Cracker

12pm – 5pm, 9 December  
Broad Street, top car park & Bethlehem Court. Santa's Grotto, children's activities, food and craft stalls, music and dancing. Tel 07542 187137.

## Victorian Santa's Grotto

11am – 4pm, 9/10 & 16/17 December  
Blaenavon Ironworks. £3 per child to include gift.

## Flowers to Carols

7pm, 13 December  
St. Peters Church. Demonstration by members of Pontypool Floral Art followed by mulled wine and mince pies. Tickets £5 available at the Church or from Kay Touhig (01495) 772364. Proceeds towards St. Peters building maintenance fund.

## Family Christingle Service

5:30pm, 16 December  
St. Pauls Church.

## Nine Lessons & Carols

6pm, 17 December  
St. Peters Church.

## Family Crib Service

6pm, 24 December  
St. Peters Church

## Christmas Eve Service

10:45pm, 24 December  
St. Pauls Church.

## Christmas Day Service

10am, 25 December  
St. Peters Church.

## Good Friday Service

2pm, 30 March 2018  
St. Peters Church.

## Easter Day Family Service

9:30am, 1 April 2018  
St. Peters Church.

## Man Engine

8 April 2018  
The colossal Man Engine will begin his journey at Big Pit before parading down to Blaenavon Ironworks accompanied by choirs, brass bands and theatrics as part of his journey across Wales. [www.themanengine.co.uk](http://www.themanengine.co.uk)

## Bendithio'r Preseb a Charolau

7pm, 27 Tachwedd  
Bethlehem Court.

## Diwrnod Crefftau'r Nadolig

11am – 4pm, 2 Rhagfyr  
Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon a'r Llyfrgell. Gweithgareddau Nadolig i'r teulu oll. Bwydlen Nadoligaidd ar gael yn y Caffi. Ffôn (01495) 742333. [www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)

## Teithiau Arbennig i Weld Siôn Corn

2/3/9/10/16/17 a 23 Rhagfyr  
Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon. Teithiuch ar drên i gwrdd â'r dyn ei hun! Cyfle i oedolion fwynhau sieri a mins pei ar y ffordd. Bydd pob plentyn yn derbyn anrheg briodol. £12 i oedolion a phlant. Rhaid bwcio. [www.pbrly.co.uk](http://www.pbrly.co.uk)

## Cracer Nadolig Blaenafon

12pm – 5pm, 9 Rhagfyr  
Heol Lydan, Maes Parcio Uchaf a Bethlehem Court. Ogor Siôn Corn, gweithgareddau i blant, stondinau bwyd a chreffft, cerddoriaeth a dawnsio. Ffôn 07542 187137.

## Ogor Siôn Corn yng Nghyfnod Victoria

11am – 4pm, 9/10 a 16/17 Rhagfyr  
Gwaith Haearn Blaenafon. £3 y plentyn i gynnwys anrheg.

## Blodau a Charolau

7pm, 13 Rhagfyr  
Eglwys San Pedr. Arddangosfeydd gan aelodau Pontypool Floral Art i'w ddilyn gan Win y Gaeaf a Mins Peis. Tocynnau £5 ar gael gan yr

Eglwys neu gan Kay Touhig (01495) 772364. Elw tuag at gronfa gynnal a chadw Eglwys San Pedr.

## Gwasanaeth Cristingl i'r Teulu

5:30pm, 16 Rhagfyr 5:30pm  
Eglwys San Paul.

## Naw Darlleniad a Charolau

6pm, 17 Rhagfyr  
Eglwys San Pedr.

## Gwasanaeth Preseb i'r Teulu

6pm, 24 Rhagfyr  
Eglwys San Pedr.

## Gwasanaeth Noswyl y Nadolig

10:45pm, 24 Rhagfyr  
Eglwys San Paul.

## Gwasanaeth Dydd Nadolig

10am, 25 Rhagfyr  
Eglwys San Pedr.

## Gwasanaeth Dydd Gwener y Groglith

2pm, 30 Mawrth 2018  
Eglwys San Pedr.

## Gwasanaeth Sul y Pasg i Deuluoedd

9:30am, 1 Ebrill 2018  
Eglwys San Pedr.

## Man Engine

8 Ebrill 2018  
Bydd dyfais anferthol y Man Engine yn dechrau ar ei daith ym Mhwl Mawr cyn gorymdeithio i Waith Haearn Blaenafon yng nghwmni corau, bandiau pres a pherfformiadau theatrig, fel rhan o'i daith ledled Cymru. [www.themanengine.co.uk](http://www.themanengine.co.uk)

